

Ehangu Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau ar gyfer Cam Un

Adran Un: Cyfeiriad Strategol

Yn 2019, gwnaeth Llywodraeth Cymru lansio ei gweledigaeth ar gyfer system Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gyfannol yng Nghymru. Rydym yn dechrau ar daith deng mlynedd i fabwysiadu dull Addysg a Gofal Plentynod Cynnar i blant rhwng 0 a 5 oed. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein darpariaeth i blant 0-5 oed yn canolbwyntio ar ddatblygu anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plant mewn modd cyfannol er mwyn cefnogi llesiant a dysgu gydol oes. Un o amcanion sylfaenol y dull hwn yw sicrhau bod cymaint o blant â phosibl yn gallu manteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel yng Nghymru.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, rydym wedi estyn yr ymrwymiad hwn er mwyn ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cabinet wedi cytuno mai Dechrau'n Deg yw'r rhaglen fwyaf addas ar gyfer gwireddu'r ymrwymiad hwn yn raddol. Mae tua 36,000 o blant o dan bedair oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru eisoes yn manteisio ar y rhaglen, ac mae tua 9,000 o blant dwy oed yn cael gofal plant rhan-amser a ariennir o ansawdd uchel.

Bydd y cam cyntaf yn y gwaith o ehangu Dechrau'n Deg yn dechrau ym mis Medi 2022, a bydd yn cynnwys pob un o bedair elfen y rhaglen bresennol: - Ymweliadau lechyd ychwanegol, cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, cymorth rhianta a gofal plant o ansawdd uchel. Ein bwriad yw cynnwys 2,500 mwy o blant o dan bedair oed yn ystod y cam hwn. Bydd hyn yn cynyddu nifer y plant sy'n manteisio ar y cynllun i 38,500 bob blwyddyn.

Mae angen canllawiau clir a chyson nawr i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr wybodaeth a'r cyfeiriad sydd eu hangen arnynt i lywio cynlluniau ehangu sy'n adlewyrchu'r **blaenoriaethau lefel uchel** canlynol:

- mynd i'r afael ag amddifadedd
- cynyddu darpariaeth Gymraeg
- mynd i'r afael â bylchau o ran y ddarpariaeth sydd ar gael

Adran Dau: Meini Prawf ar gyfer Targedu'r Gwaith o Ehangu yn ystod Cam Un

Diben y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ehangu er mwyn bod yn barod i gyflwyno gwasanaethau newydd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg newydd o fis Medi 2022 ymlaen.

Bydd canllawiau pellach sy'n canolbwyntio ar gam dau o'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn dilyn yn hydref 2022.

Yn hanesyddol, roedd Dechrau'n Deg yn rhaglen wedi'i thargedu'n ddaearyddol, a oedd yn defnyddio data ar fudd-daliadau incwm, sy'n ddangosydd procsi ar gyfer tlodi, er mwyn targedu ardaloedd â'r ganran uchaf o blant rhwng 0 a 3 oed sy'n bwy ar aelwydydd sy'n manteisio ar fudd-daliadau incwm.

Nodwyd yr ardaloedd hyn drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, data o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r data hyn wedi'u trefnu ar sail Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol.

Mae'r dull lefel uchel hwn o dargedu cymorth yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn ogystal â bod yn dryloyw ac yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn sy'n dangos pam mae rhai ardaloedd penodol o fewn cwmpas y cynlluniau ehangu ac nid ardaloedd eraill.

O'r tair blaenoriaeth lefel uchel, bydd angen ystyried amddifadedd a'r Gymraeg wrth lunio cynlluniau ehangu yn ystod cam un.

Wrth reswm mae'r trydydd maen prawf, sy'n seiliedig ar fylchau yn y ddarpariaeth bresennol, yn debygol o nodi ardaloedd lle bydd angen rhagor o amser er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael, gan efallai y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad cyfalaf, a gan fod y gwaith o ddatblygu seilwaith yn cymryd amser. Felly rydym yn cynnig na ddylid ystyried bylchau yn y ddarpariaeth bresennol yn brif ffactor wrth bennu'r ardaloedd lle bydd gofal plant a ariennir ychwanegol yn cael ei gynnig yn ystod cam un, ond y dylai cam un gynnwys elfen o waith casglu gwybodaeth/data i lywio cynlluniau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Mynd i'r afael ar Amddifadedd

Wrth ddyrannu cyllid ychwanegol er mwyn ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghymru, yn y bôn rydym yn ychwanegu at effaith y rhaglen yn genedlaethol. Mae deall lle bydd gwasanaethau Dechrau'n Deg sydd wedi'u targedu'n ddaearyddol yn symud ar lefel yr awdurdod lleol yn flaenoriaeth, a bydd angen nodi hyn yn glir mewn cynlluniau cyflawni lleol ar gyfer ehangu.

Cyllid Ychwanegol a Thargedau

Byddwch yn cael dyraniadau refeniw dangosol, sydd wedi'u clustnodi at ddibenion ehangu yn unig, fel rhan o'ch llythyrau dyfarnu'r Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2022-25, a bydd disgwyl ichi ddarparu gwasanaethau i nifer ychwanegol o blant ar sail swm diwygiedig o £2400¹ y plentyn.

Er enghraifft - os bydd gennych ddyraniad refeniw wedi'i glustnodi dangosol ar gyfer ehangu o £350,000, bydd disgwyl ichi weithio tuag at darged o 146 o blant ychwanegol ($350,000/2400 = 146$). Nodwch fod hyn yn gyfystyr â £1400 y plentyn ar gyfer mis Medi drwy fis Mawrth 2023.

¹ Ar sail pro rata ar gyfer y cyfnod cyflawni o 7 mis yn ystod cam 1.

Dylid defnyddio'r refeniw a ddyrannir ichi yn ystod cam un tuag at ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg ehangach rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023 (7 mis). Fodd bynnag, bydd angen ymrwymiad ariannol mwy rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 (12 mis) ac ar ôl hynny, a chaiff eich dyraniadau refeniw eu cynyddu ym mlynnyddoedd y dyfodol yn unol â hynny.

Er enghraifft - os bydd gennych ddyraniad refeniw wedi'i glustnodi dangosol ar gyfer ehangu o £350,000 ar gyfer cam un (rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023), bydd hyn yn troi'n £600,000 ym mlynnyddoedd y dyfodol. Bydd nifer targed y plant rydych yn eu cefnogi yn ystod y gwaith o ehangu cam un yn parhau'r un peth.

Bydd dyraniadau awdurdodau lleol unigol yn dilyn y fformiwla Dechrau'n Deg presennol, sy'n golygu y bydd pob awdurdod lleol yn cael yr un rhan gymesur o'r arian ehangu ag y mae'n ei chael ar gyfer Dechrau'n Deg cyn i'r Grant Plant a Chymunedau gael ei roi ar waith. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau ehangu manwl, a bydd angen cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyraniadau terfynol. Bydd pob awdurdod lleol hefyd yn cael rhywfaint o gyllid ychwanegol fel rhan o ddyraniad y Grant Plant a Chymunedau er mwyn datblygu capasiti gweinyddol i gefnogi'r gwaith o ehangu yn ystod cam un a cham dau. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu ar gyfer tair blynedd.

Pan fyddwch wedi nodi nifer targed y plant ychwanegol, bydd angen ichi bennu eich ardaloedd ehangu Dechrau'n Deg lleol drwy ddilyn methodoleg debyg i'r hyn a fabwysiadwyd pan gafodd Dechrau'n Deg ei ehangu'n flaenorol yn ystod 2012 (fel y'i nodir isod).

Ardaloedd Ehangu - Y Fethodoleg

Er mwyn nodi eich ardaloedd ehangu, bydd angen ichi ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a roddwyd ichi gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, a bydd yn dangos ichi pa rhai o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol yn eich awdurdodau lleol, nad oes gwasanaethau Dechrau'n Deg ar gael ynddynt ar hyn o bryd, sydd bellach yn gymwys ar gyfer ehangu gwasanaethau yn ystod cam un.

Mae ffynonellau gwybodaeth eraill, ar y cyd â'ch gwybodaeth leol am eich ardaloedd awdurdod lleol, yn parhau'n hanfodol o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cyrraedd y teuluoedd hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn yr ardaloedd daearyddol eang a nodwyd. Efallai y byddwch eisoes wedi dechrau gweithio mewn rhai o'r ardaloedd hyn drwy Raglen Trawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar, ac yn gallu datblygu hyn fel rhan o'r rhaglen ehangu. Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth eraill a allai fod o ddefnydd ichi, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae:

- Data ar Brydau Ysgol am Ddim.
- Data gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Data gan y Bwrdd Iechyd.

O ran ychwanegu at effaith Dechrau'n Deg, dylid parhau i ehangu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol fel y dewis 'diofyn' o hyd. Ond, fel mewn blynyddoedd blaenorol, os bydd gennych resymau clir, gwrthrychol a dilys am eithrio rhannau penodol o Ardal Gynnyrch Ehangach Leol, dylech fod yn rhydd i wneud hynny.

Nodwch – Gwyddom efallai bod bylchau yn yr ardaloedd yn eich awdurdod lleol sy'n cael gwasanaethau Dechrau'n Deg ar hyn o bryd y dylid mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r cynlluniau ehangu yn eich barn chi. Yn yr achos hwn, byddwn yn disgwyl ichi ymchwilio i bob ffordd bosibl o ddefnyddio eich dyraniadau cyllid presennol i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn. Ffocws cam cyntaf y gwaith o ehangu yw ychwanegu at effaith Dechrau'n Deg drwy ehangu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol newydd.

Cynyddu Darpariaeth Gymraeg

Un o nodau cyffredinol y gwaith o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yw ehangu darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd angen i gynlluniau ehangu cam un ddangos sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio cefnogi'r nod cyffredinol hwn, a bydd angen sicrhau eu bod yn rhoi sylw penodol i'r blaenoriaethau canlynol:

- cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg; a
- cynyddu lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Bydd angen arfer dull wedi'i leoli er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol i sicrhau bod cynlluniau ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn realistig ac yn gynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull a nodwyd mewn cynlluniau ehangu unigol fesul achos.

Gwyddom fod gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a phrosesau caffael iaith yn gweithio gorau lle bydd llwybr clir i addysg gynradd a thu hwnt; fodd bynnag, gwyddom hefyd mai drwy sefydlu gwasanaethau Cymraeg mewn ardaloedd lle nad oeddent yn gyffredin yn hanesyddol, ein bod yn gallu codi ymwybyddiaeth a chreu cyfleoedd newydd i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg.

Dylai cynlluniau cam un ystyried y ffactorau hyn ar y cyd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eich awdurdod lleol, darpariaeth Cylchoedd Meithrin presennol, a'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg eraill sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cysoni i gefnogi ein nod cyffredinol.

Hyrwyddo Manteision Amlieithrwydd

Mae hyrwyddo manteision amlieithrwydd o oedran cynnar yn bwysig o ran helpu rhieni i wneud dewis doeth am ddarpariaeth gofal plant. Yn eich cynllun mae angen i chi egluro sut y byddwch yn:-

- Hyrwyddo manteision siarad mwy nag un iaith o oedran cynnar².

Allgymorth

Mae disgwyl ichi wneud 75% o'ch gwaith ehangu gan ddefnyddio'r dull targedu daearyddol a nodwyd uchod. Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer cam un, gellir cwblhau hyd at 25% o'ch gwaith ehangu drwy Allgymorth Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod modd ichi gynnwys teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg presennol neu rai newydd, ac er mwyn cynnwys teuluoedd o dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig. Drwy hyn, bydd modd i'r rhaglen bresennol gynnwys teuluoedd o dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig, a chefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth Gymraeg.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i bolisi Allgymorth Dechrau'n Deg.

Rhwystrau i Ehangu

Gwyddom efallai y bydd adegau pan fydd y fethodoleg a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ganllaw hon yn golygu eich bod yn nodi ardaloedd o'ch awdurdod lleol lle y dylai gwasanaethau Dechrau'n Deg fod ar waith er mwyn ychwanegu at effaith y rhaglen, ond lle nad yw'n bosibl cyflawni elfennau hanfodol o'r rhaglen ar hyn o bryd.

Er enghraifft, ni fyddai'n ymarferol ehangu'r rhaglen i unrhyw ardal newydd nad oes darpariaeth gofal plant eisoes ar gael ynddi, neu mewn pellter cerdded rhesymol ohoni (tua 15 munud ar droed). Mae awdurdodau lleol yn annhebygol o allu sefydlu darpariaeth newydd er mwyn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg erbyn 2022. Mae hyn yn creu rhwystr na ellir ei drechu o ran darparu gwasanaethau yn yr ardal honno yn ystod cam un o'r gwaith ehangu.

Mewn achosion o'r fath, byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol fabwysiadu dull ymarferol a symud ymlaen i'r ardal nesaf ar eu rhestr sydd â'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg. Byddai angen datblygu'r ardaloedd a nodwyd yn wreiddiol fel rhan o waith ehangu cam dau, gan flaenoriaethu cynlluniau i sefydlu darpariaeth gofal plant yn yr ardaloedd hynny fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer cam dau.

Gwyddom efallai y bydd yn heriol i rai awdurdodau lleol fodloni eu targedau newydd gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn y canllawiau hyn (targedau daearyddol ar sail ardaloedd o amddifadedd cymharol).

² Byddwch yn ymwybodol o'r [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru – Cymru Wrth-hiliol](#)

Lle bydd hyn yn wir, gellir cytuno i ddarparu cyfran fwy o'ch gwaith drwy Allgymorth Dechrau'n Deg fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer cam un.

Adran 3: Gwasanaethau Dechrau'n Deg mewn Ardaloedd Ehangu

Yn ystod cam un, caiff pob un o'r pedair elfen sy'n ffurfio Dechrau'n Deg ei hehangu i deuluoedd newydd a chymunedau newydd yng Nghymru. Dylid dilyn canllawiau presennol y rhaglen, a dylai'r gwasanaethau yn eich ardaloedd ehangu adlewyrchu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd Dechrau'n Deg mwy sefydledig yn eich awdurdod lleol, cyn belled ag y bo'n arferol.

Fodd bynnag, gwyddom efallai na fydd yn bosibl cyflawni pob elfen o'r rhaglen erbyn dechrau cam un (medi 2022) oherwydd capasiti'r gweithlu a heriau logistaidd eraill. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen inni gytuno ag awdurdodau lleol i drefniadau pontio rhesymol ac ymarferol. Byddwn yn cytuno i'r trefniadau hyn fesul achos er mwyn cydnabod heriau lleol unigryw, a bydd angen nodi'r trefniadau hyn yn glir mewn cynlluniau ehangu awdurdodau lleol.

Ymhlith yr elfennau y gellid eu llacio mae:

- Llacio'r elfennau ansawdd ychwanegol sy'n rhan o ofal plant Dechrau'n Deg am gyfnod penodol, gan gynnwys y cymwysterau.
- Llacio'r gofyniad i sicrhau bod Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg penodol gan blant Dechrau'n Deg gyda llwyth achosion o 1:110 am gyfnod penodol.
- Llacio'r elfennau ychwanegol o raglen Iechyd Dechrau'n Deg am gyfnod penodol.

Nodwch mai darparu gwasanaeth ychwanegol llawn i blant a theuluoedd yw'r flaenoriaeth, a bydd angen ichi ystyried sut y gellir dirwy'r trefniadau pontio hyn i ben yn raddol cyn gynted â phosibl. Bydd angen cynnwys hyn yn eich cynlluniau ar gyfer cam un a cham dau o'r gwaith ehangu.

Sicrhewch fod unrhyw Wasanaethau a ddatblygir fel rhan o'ch cynlluniau ehangu yn cael eu cydgysylltu â Gwasanaethau allweddol eraill yn eich ardal, fel Teuluoedd yn Gyntaf.

Gofal Plant Dechrau'n Deg

Yn aml, gofal plant Dechrau'n Deg yw'r elfen fwyaf sylweddol a mwyaf amlwg o'r rhaglen, sy'n cynnwys darpariaeth breifat, darpariaeth a gynhelir a darpariaeth trydydd sector ym mhob rhan o'r sector. Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol wedi cael yr hyblygrwydd i bennu union gyfansoddiad eu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, ac mae nifer o wahanol fodolau wedi dod i'r amlwg ledled Cymru o ganlyniad i hyn.

Mae gweithio gyda darparwyr lleol, lle bynnag y bo'n bosibl, o'r cychwyn cyntaf yn ffordd ymarferol o allu sicrhau bod darpariaeth yn barod i'w roi ar waith erbyn y dyddiad targed, ac yn rhoi cyfle inni sicrhau bod y cynnydd hwn yn gynaliadwy ar gyfer y sector. At hynny, gwyddom y bydd yn bosibl inni ddechrau codi safon gofal plant i bawb pan fydd amrywiaeth o ddarparwyr wrthi'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg, sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth ehangach ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru.

Adran Pedwar: Gofynion Adrodd

Yn gyntaf, bydd disgwyl ichi adrodd yn erbyn y targedau newydd, a osodwyd fel rhan o'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg, ar wahân i'ch darpariaeth graidd sy'n cyfrannu at y targed cenedlaethol o 36,000 o blant y flwyddyn. Mae angen gwneud hyn er mwyn rhoi cyfle inni fonitro bod y rhaglen yn cael ei hehangu'n effeithiol, ac er mwyn cydnabod y rhwystrau logistaidd y gallwn eu hwynebu wrth fonitro pwy sy'n elwa ar y rhaglen gan arfer y dull presennol (drwy gysylltiadau unigryw ag Ymwelwyr Iechyd) o ganlyniad i heriau'r gweithlu.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi'r Llywodraeth am y ffordd orau o gasglu data ar ehangu. Byddwn yn cysylltu â chi maes o law i drafod y dull gweithredu.

Adran Pump: Yr hyn y mae angen ichi ei wneud nesaf

Rydym wedi cynnwys templed cynllunio gyda'r canllawiau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am eich dyraniadau ariannol unigol a thargedau ar gyfer ehangu, yn ogystal â chanllawiau pellach ar sut i gwblhau'r templed, ar gael yn y ddogfen.

Mae'r templed yn mynd â chi drwy ddull cam wrth gam o gynllunio eich gwaith ehangu. **Nodwch y bydd angen dychwelyd eich cynlluniau i Lywodraeth Cymru ddim hwyrach na 13 Mehefin 2022.**

Mae copi o ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a data'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi'u cynnwys er mwyn eich helpu i nodi eich ardaloedd ehangu.

Cysylltwch â'ch [Rheolwr Cyfrif](#) os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r canllawiau hyn neu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y templed cynllunio.